**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Tom Middlehurst | (Llafur) |
| Jonathan Morgan | (Ceidwadwr) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Ron Davies.

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-06-2003 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2003.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y dylai'r Pwyllgor fynd ati i drafod y Gorchmynion i'w Hystyried gan nad oes pwyntiau gweithredu yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
LC646 – Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2003
3.1 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC646 (Adroddiad).

**LC654 – Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru 2003**
3.4 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC654 (Adroddiad).

**LC643 – Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003**
3.7 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC643 (Adroddiad).

**LC649 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.10 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.12 Gofynnwyd a oedd y pwynt fod yn rhaid cydnabod cwynion o fewn 2 ddiwrnod yn cyfeirio at ddiwrnodau gwaith. Dywedodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol ei fod yn cyfeirio at ddiwrnodau gwaith.

3.13 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC649 (Adroddiad).

**LC650 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.14 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.15 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.16 Gofynnwyd ai cwynion ysgrifenedig oedd y cwynion y cyfeiriwyd atynt. Roedd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol yn credu bod hyn yn cyfeirio at gwynion ysgrifenedig fwy na thebyg, ond dywedwyd y byddai angen edrych ar y prif Reoliadau gan nad oedd y ddarpariaeth berthnasol yn y Rheoliadau a ystyriwyd ar hyn o bryd. **(Gweithredu: Ymgynghorwyr Cyfreithiol)**

3.17 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC650 (Adroddiad).

**LC651 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.18 Cyflwynodd Mr Rowlands ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.19 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.20 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC651 (Adroddiad).

**LC652 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.21 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.22 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.23 Holwyd am y cosbau am beidio â bodloni'r terfynau amser newydd hyn. Dywedodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y byddent yn cyfeirio at y rheoliadau gwreiddiol ar gyfer y cosbau ac yn hysbysu'r Pwyllgor. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol**

3.24 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC652 (Adroddiad).

**LC653 – Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.25 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.26 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio ymddangosiadol o ran y diffiniad o "y Ffurflen" yn rheoliad 1(3) a gwall drafftio yn rheoliad 4. Gellid eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

3.27 Gwnaeth y Pwyllgor sylw hefyd y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.28 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC653 (Adroddiad).

**LC655 – Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol Rhad ac am Ddim) (Credydau Treth Rhagnodedig) (Cymru) 2003**
3.29 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.30 Dywedodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol fod y Gorchymyn eisoes wedi cael ei ddiwygio i ystyried y sylwadau yn yr adroddiad drafft. O ganlyniad, dylai'r adroddiad nodi nad oedd unrhyw bwyntiau i'w codi o ran reol sefydlog 11.5 a dim sylwadau ychwaith.

3.31 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC655 (Adroddiad).

**LC656 – Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol) (Gofyniad Rhagnodedig) (Cymru) 2003**
3.32 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.33 Dywedodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol fod y Gorchymyn eisoes wedi cael ei ddiwygio i ystyried y gwall drafftio a'r sylwadau yn yr adroddiad drafft. O ganlyniad, byddai'r adroddiad yn nodi nad oedd unrhyw bwyntiau i'w codi o ran reol sefydlog 11.5 a dim sylwadau ychwaith.

3.34 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC656 (Adroddiad).

**LC648 – Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003**
3.35 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.36 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio ymddangosiadol o ran enwi pwerau ac erthygl 1(3).

3.37 Gwnaeth y Pwyllgor dri sylw hefyd y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.38 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC648 (Adroddiad).

**LC657 – Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) 2003**
3.39 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.40 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio ymddangosiadol o ran erthygl 1(3).

3.41 Gwnaeth y Pwyllgor sylw hefyd y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.42 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC657 (Adroddiad).

**LC658 – Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003**
3.43 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.44 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.45 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC658 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18 Mawrth 2003.